

Rhif: WG39006



Llywodraeth Cymru  
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

## Canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2020

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saeneg.  
This document is also available in English.

# Canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel

## Cynulleidfa

Awdurdodau lleol; penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir; penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion sefydledig; athrawon sy'n gyfrifol am unedau cyfeirio disgyblion; awdurdodau esgobaethol yr eglwys; perchnogion ysgolion annibynnol; penaethiaid sefydliadau addysg bellach; undebau staff ysgolion; Llywodraethwyr Cymru; Gyrfa Cymru; awdurdodau addysg uwch a Chadeiryddion Byrddau Lleol Diogelu Plant. Dylai hefyd gael ei ddarllen gan y staff yn y sefydliadau hynny sydd â chyfrifoldeb arweiniol am ddiogelu plant.

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys canllawiau i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ar drefniadau ar gyfer diogelu plant o dan adran 175 o Ddeddf Addysg 2002.

## Camau i'w cymryd

Dylai'r cyflogwyr a'r sefydliadau addysgol sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc gymryd y camau gweithredu angenrheidiol a amlinellir yn y canllawiau hyn. Mae rhwymedigaethau cyfreithiol ar gyfer cyflogwyr a sefydliadau addysgol yn y meysydd hyn a chânt eu nodi yn y canllawiau.

## Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:

Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr  
Cyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ  
**E-bost: [keepinglearnerssafe@gov.wales](mailto:keepinglearnerssafe@gov.wales)**



@WG\_Education



Facebook/EducationWales

## Copïau ychwanegol

Gellir gweld y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn <https://llyw.cymru/cadw-dysgwyr-yn-ddiogel>

**Dogfennau  
cysylltiedig**

- *Cadw Dysgwyr yn ddiogel: Rôl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion ysgolion annibynnol o dan Ddeddf Addysg 2002* Cylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif 158/2015
- *Diogelu Plant mewn Addysg: Rôl awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu o dan Ddeddf Addysg 2002* Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif: 005/2008 (2008)
- *Amddiffyn Plant: Atal Pobl Anaddas rhag Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc yn y Gwasanaeth Addysg* Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru Rhif: 34/02 (2002)
- *Swyddfa Cofnodion Troseddol: Ffeithiau Sylfaenol ar gyfer Gwirfoddolwyr Ysgolion* Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru Rhif: 02/03 (2003)
- *Adrodd ar Achosion o Gamymddwyn ac Anghymwystra yn y Gwasanaeth Addysg: Adrodd ar Achosion o Gamymddwyn neu Anghymhwysra Proffesiynol yn y Gwasanaeth Addysg – Trefniadau Adrodd Diwygiedig o 12 Hydref 2009* Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif: 018/2009 (2009)

# Cynnwys

<b>Cyflwyniad</b>	<b>2</b>
<b>Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad</b>	<b>3</b>
Cwestiwn 1	4
Cwestiwn 2	5
Cwestiwn 3	6
Cwestiwn 4	7
Cwestiwn 5	8
Cwestiwn 6	9
Cwestiwn 7	10

## Cyflwyniad

Fe ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y canllawiau statudol diwygiedig 'Cadw Dysgwyr yn Ddiogel' a oedd yn cynnwys polisi diogelu enghreifftiol a phecyn cymorth archwilio diogelu rhwng 18 Gorffennaf a 7 Tachwedd 2019.

Y nod oedd diweddarau'r canllawiau fel eu bod yn parhau i gynorthwyo awdurdodau lleol, ysgolion a cholegau i fod â threfniadau diogelu cadarn. Roedd llawer o'r newidiadau'n ffeithiol o ran eu natur, yn ymateb i ddiweddariadau i'r ddeddfwriaeth. Roedd newidiadau eraill mewn ymateb i adborth gan ysgolion, colegau, awdurdodau lleol ac arweinwyr diogelu.

Roedd y newidiadau allweddol yn cynnwys:

- Mwy o eglurder ynglŷn â chynulleidfa'r canllawiau;
- Cysoni'r derminoleg â newidiadau deddfwriaethol diweddar;
- Cynnwys cyngor i gyrrff llywodraethu ynghylch ychwanegu cam-drin rhwng cyfoedion ac ymddygiad rhywiol niweidiol at eu polisiâu amddiffyn plant a chanllawiau ynghylch sut y dylai ysgolion ymdrin â hyn;
- Cynnwys adran newydd ar gam-drin domestig, trais ar sail rhywedd ac arferion diwylliannol niweidiol, gan gynnwys anffurfio organau cenhedlu benywod a phriodas dan orfod;
- Cynnwys adran newydd ar Gydlynid Cymunedol, gan gynnwys atal radicaleiddio a Chamfanteisio'n Droseddol ar Blant a Llinellau Cyffuriau; a
- Cynnwys offeryn archwilio diogelu i gynorthwyo'r holl leoliadau addysg i adolygu eu trefniadau diogelu yn unol â gofynion Estyn.

Roedd y canllawiau drafft diwygiedig hefyd yn cynnwys cyfeirio at ystod o adnoddau i helpu ysgolion i roi'r polisi ar waith ar lefel weithredol.

Diben yr ymgynghoriad oedd canfod a oedd y canllawiau drafft diwygiedig yn diwallu anghenion cynulleidfaoedd allweddol.

## Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Mae'r dadansoddiad a ganlyn yn seiliedig ar y 71 o ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad. O'r rhain daeth 25 o ymatebion i law trwy ein system ymgynghori ar-lein; daeth 43 o ymatebion pellach i law trwy'r e-bost a 3 trwy'r post, ac fe gyflwynwyd 4 ymateb yn Gymraeg.

Daeth yr ymatebion oddi wrth ystod o sefydliadau gan gynnwys ysgolion, colegau, lleoliadau'r blynyddoedd cynnar, awdurdodau lleol, byrddau diogelu rhanbarthol, y Comisiynydd Plant, byrddau iechyd, yr arolygiaeth, sefydliadau'r trydydd sector, undebau, ac aelodau'r cyhoedd.

Roedd y canllawiau wedi'u diweddarau'n cael eu croesawu ond cynigiodd yr ymatebwyr awgrymiadau ynglŷn â sut y gellid eu gwella. Roedd rhai o'r themâu a ddaeth i'r amlwg o'r ymatebion yn cynnwys:


- Mwy o gydnabyddiaeth i'r modd y gall rolau a chyfrifoldebau amrywio mewn gwahanol leoliadau;
- Statws, ariannu a goruchwyllo'r Person Diogelu Dynodedig; a'u rôl mewn lleoliadau mwy;
- Galw am ddull mwy cyson lle mae hyfforddiant yn y cwestiwn a'r lefelau o hyfforddiant sy'n ofynnol ar gyfer gwahanol rolau;
- Sut y caiff y canllawiau eu cymhwyso mewn lleoliadau nas cynhelir;
- Cyfrifoldebau diogelu mewn gweithgarwch sy'n gysylltiedig â gwaith, e.e. dysgu seiliedig ar waith, prentisiaethau;
- Rhagor o ganllawiau ynghylch sut i weithio gyda dysgwyr a rhieni yr effeithir arnynt gan drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- Rhagor o eglurder ynghylch adnoddau sy'n ymwneud â'r Ddyletswydd PREVENT;
- Cyfuno penodau ar recriwtio a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; a hefyd
- Yr angen i gynnwys cyfeiriadau at y gweithdrefnau diogelu newydd ar gyfer Cymru.

Bydd yr ymatebion yn cael eu defnyddio i oleuo diwygiadau i'r canllawiau, a fydd yn cael eu cyhoeddi yn ystod tymor yr haf 2020.

## Cwestiwn 1

**Ydych chi'n cytuno bod y newidiadau drafft a wnaed i ganllawiau diwygiedig Cadw Dysgwyr yn Ddiogel yn briodol ac yn effeithiol? Os nad ydych, pa drefniadau pellach y credwch sydd eu hangen?**

Cytuno	42
Anghytuno	14
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	6
Heb ateb	9



Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno bod y newidiadau'n briodol ac yn effeithiol. O'r rhai a oedd yn cytuno roedd nifer o'r farn bod y diwygiadau'n darparu rhagor o eglurder am eu cyfrifoldebau ac yn adlewyrchu newidiadau i ddeddfwriaeth. Awgrymodd rhai hefyd y gallai'r canllawiau fod yn gryfach pe bai mwy o ddefnydd o'r term "rhaid" yn hytrach na "dylai".

Roedd yr ymateb gan Gomisiynydd Plant Cymru yn pwysleisio bod cyfeiriadau at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn wannach yn y canllawiau wedi'u diweddarau ac y dylid cynnwys hynny mewn adran ar wahân am bod "plant a phobl ifanc wedi gwneud datgeliadau yn union ar ôl dysgu am eu hawliau i fod yn ddiogel" (Comisiynydd Plant Cymru).

Hefyd, fe wnaeth nifer o ymatebwyr amlygu meysydd ychwanegol yr oeddent am iddynt gael eu cynnwys neu eu cryfhau yn y canllawiau, gan gynnwys:


- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a llais y plentyn ym mhrosesau diogelu ysgolion
- Ataliaeth
- Ymgyrch Encompass
- Cam-drin rhwng cymheiriaid
- Cydsyniad (adran ar bobl ifanc sydd wedi dechrau cael rhyw)
- Troseddau â chyllyll
- Tynnu lluniau i fyny sgertiau
- Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant
- Bwlio
- Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Darparwyr sy'n gweithredu mewn ysgolion y tu hwnt i oriau ysgol
- Gwirfoddolwyr a gweithgareddau y tu allan i'r ysgol megis gwibdeithiau ysgol.

## Cwestiwn 2

**Ydych chi'n cytuno â'r rôl a'r cyfrifoldebau a amlinellir yng nghanllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel ar gyfer yr Uwch Berson Dynodedig ar gyfer amddiffyn plant a swyddog arweiniol yr awdurdod lleol ar gyfer diogelu? Os nad ydych, pa drefniadau pellach y credwch sydd eu hangen?**

Cytuno	47
Anghytuno	8
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	8
Heb ateb	8

Cwestiwn 2 – Ydych chi'n cytuno â'r rôl a'r cyfrifoldebau a amlinellir yng nghanllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel ar gyfer yr Uwch Berson Dynodedig ar gyfer amddiffyn plant a swyddog arweiniol yr awdurdod lleol ar gyfer diogelu?



■ Cytuno ■ Anghytuno ■ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno ■ Heb ateb

Roedd y mwyafrif llethol o'r ymatebwyr yn cytuno bod y rolau a'r cyfrifoldebau a oedd yn cael eu nodi yn y canllawiau diwygiedig yn glir; fodd bynnag dywedodd nifer o ymatebwyr y dylai fod goruchwyliaeth a chymorth mwy ffurfiol ar gyfer rôl yr Uwch Berson Dynodedig. hefyd, dylai'r canllawiau ystyried sut y mae'r rôl yn gweithredu mewn sefydliadau mwy ar draws safleoedd lluosog, megis colegau, fel a ddangosir yn y sylw hwn:

*“Mae rôl yr Uwch Swyddog Dynodedig yn eglur. Fodd bynnag, mae angen egluro ymhellach sut y mae Uwch Swyddogion Dynodedig yn gweithio mewn sefydliadau mwy, gan ddangos rôl y Dirprwy Uwch Swyddog Dynodedig. Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i bwysleisio pwysigrwydd goruchwyliaeth ar gyfer Uwch Bersonau Dynodedig o ystyried difrifoldeb y rôl.”*  
(Gwasanaethau Myfyrwyr AB, Coleg Sir Benfro)

Hefyd, amlygodd nifer o ymatebwyr ddiffyg canllawiau ynghylch y cymwysterau neu'r hyfforddiant yr oedd eu hagen i'r Uwch Berson Dynodedig gyflawni ei rôl, ac roedd rhai o'r farn y dylai fod gan yr Uwch Berson Dynodedig gefndir ym maes diogelu. Mae'r sylw canlynol yn adlewyrchu hyn:

*“Byddai angen i ni amlygu bod y rôl hon yn aml yn cael ei chyflawni gan Bennaeth yr Ysgol. Yn aml mae angen i'r swyddog ddirprwyo cyfrifoldebau i swyddog arall. Mae adnoddau'n golygu nad swydd arunigol yw hon. Mae nifer o swyddogion yn amlygu'r galwadau ar y rôl hon i fynychu'r holl gyfarfodydd diogelu ac ati. Byddem yn disgwyl rhagor o eglurder ynghylch lefel yr hyfforddiant sy'n ofynnol ar gyfer y swydd hon. Hefyd, eglurder ynglŷn â'r math o gymorth y byddem yn disgwyl gweld swyddog yn ei gael. Mae rhai ardaloedd yn cynnig mentora/ cymorth gan gymheiriaid/ goruchwyliaeth diogelu ond nid felly mae hi ledled Cymru.”* (Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru)




Gofynnodd nifer o ymatebwyr am eglurder ynglŷn â theitl llawn yr Uwch Berson Dynodedig i sicrhau ei fod yn gyson â Gweithdrefnau Diogelu newydd Cymru.

### Cwestiwn 3

**Ydych chi'n credu bod yr adnodd archwilio trefniadau diogelu yn rhoi'r lefel gywir o gefnogaeth i ysgolion?**

Cytuno	37
Anghytuno	8
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	18
Heb ateb	8



Roedd dros hanner yr ymatebwyr yn cytuno bod yr adnodd archwilio'n gynhwysfawr, yn rhoi canllawiau clir a'r lefel gywir o gymorth i ysgolion fel y mae'r sylw canlynol yn ei adlewyrchu;

*“Mae'r adnodd archwilio diogelu'n rhoi canllawiau clir sy'n cynorthwyo ysgolion i sicrhau y cyflawnir arfer diogelu effeithiol. Mae'r cwestiynau o fewn y ddogfen yn ei gwneud yn bosibl gwerthuso arfer cyfredol yn well, a byddant yn rhoi'r cyfle i ysgolion fyfyrion a chynllunio a mynd ati ymhellach i ddatblygu gweithdrefnau diogelu yn y dyfodol. Mae'r ddogfen werthuso hefyd yn darparu canllawiau a fydd yn cynorthwyo ysgolion i adrodd wrth gyrrff llywodraethu ar ddiogelu”, (Awdurdod Ceredigion)*

Darparodd y prosiect Pupil 2 Parliament y farn gan ddisgyblion ysgol am yr adnodd archwilio a phwysigrwydd cynnwys disgyblion yn y prosesau diogelu mewn ysgolion, a sicrhau bod gwybodaeth a deialog reolaidd gyda phlant a phobl ifanc ynglŷn â chadw'n ddiogel. Fe wnaethant hefyd gynnig awgrymiadau ynghylch gwella'r geiriad yn yr adnodd fel bod y cwestiynau'n fwy perthnasol i blant a phobl ifanc.

O ran yr ymatebwyr hynny nad oeddent yn cytuno, fe gynigiodd rhai awgrymiadau penodol ar gyfer gwella'r adnodd. Roedd yn amlwg bod ar randdeiliaid eisiau i'r adnodd fod yn hyblyg fel y gellir ei addasu ar gyfer gwahanol leoliadau ac na ddylid ystyried ei fod yn bodoli ar wahân i wiriadau sicrwydd ansawdd eraill.

## Cwestiwn 4

**Pan gaiff y fersiwn derfynol o ganllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel eu cyhoeddi yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, bydd rhaglen weithredu yn dechrau. Pa weithgarwch gweithredu (hyfforddiant a/neu godi ymwybyddiaeth ar gyfer cynulleidfaoedd penodol, er enghraifft) y bydd ei angen yn eich barn chi?**

Roedd yr ymatebion yn amlygu cefnogaeth glir i weithgarwch parhaus i roi cymorth i'w gweithredu ar bob lefel trwy amrywiaeth o ddulliau.

Galwyd am ddull cyson lle mae hyfforddiant diogelu ar gyfer yr holl staff yn y cwestiwn, gyda hyfforddiant mwy penodol ar gyfer y rhai â rolau diogelu diffiniedig megis yr Uwch Berson Dynodedig a chadeirydd y llywodraethwyr.

Darparodd ymatebwyr yr awgrymiadau canlynol ar gyfer hyfforddiant diogelu:

- Datblygu modiwl hyfforddiant ar gyfer yr holl staff gan gynnwys llywodraethwyr, cynorthwyr addysgu a staff cymorth, o bosibl ar ffurf modiwl e-ddysgu fel ei fod yn hygyrch.
- Hyfforddiant penodol ar gyfer Uwch Bersonau Dynodedig a llywodraethwyr gyda dyddiadau penodedig ar gyfer diweddaru hyfforddiant.
- Hyfforddiant sy'n cynnwys gweithgarwch 'hyfforddi'r hyfforddwr' a set o ddeunyddiau hyfforddi ategol wedi'u comisiynu y gellir eu defnyddio i hyfforddi Llywodraethwyr/Byrddau Corfforaeth, timau addysgu a chymorth, a darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith.
- Ymgorffori'r canllawiau diwygiedig Cadw Disgyblion yn Ddiogel mewn rhaglenni hyfforddiant diogelu ac amddiffyn plant presennol.
- Hyfforddiant ar bynciau arbenigol a phryderon ym maes diogelu sy'n dod i'r amlwg.

Roedd sylwadau'n cynnwys:

*“Mae angen darparu hyfforddiant ar lefel genedlaethol fel bod cysondeb mewn prosesau penderfynu ac o ran sut yr ymdrinnir â phryderon ym maes diogelu ar draws pob sector”*  
*“Adolygiad o'r modiwlau ar-lein Cadw Dysgwyr yn Ddiogel i'w diweddaru i adlewyrchu'r adolygiad o'r canllawiau a'r modiwlau i gael eu hail-lansio”* Cyngor y Gweithlu Addysg CGA

*“Hyfforddiant i Benaethiaid Ysgolion a Phenaethiaid Colegau yn eu cyfrifoldebau. Hyfforddiant i lywodraethwyr ysgolion a cholegau yn eu cyfrifoldebau. Codi ymwybyddiaeth o'r canllawiau newydd ymhlith yr holl Uwch Bersonau Dynodedig a dirprwy Uwch Bersonau Dynodedig”* Coleg Caerdydd a'r Fro

Awgrymodd nifer o ymatebwyr hefyd y byddai'n ddefnyddiol lansio'r Canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel ar sail ranbarthol ochr yn ochr â digwyddiadau lleol a chynyddu cyhoedduswydd trwy Dysg a sianeli lleol ar ôl eu cyhoeddi. Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys:

- digwyddiadau diogelu lleol;
- diweddariadau trwy gylchlythyr wythnosol yr awdurdod lleol;
- bod awdurdodau lleol yn hysbysu Uwch Bersonau Dynodedig ynghylch y diweddariad a gweithredu/cyflwyno canllawiau diwygiedig Cadw Dysgwyr yn Ddiogel
- codi ymwybyddiaeth yng nghyfarfodydd clystyrau a sesiynau briffio llywodraethwyr.

## Cwestiwn 5

**Hoffem gael eich barn ar yr effaith y byddai canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel yn ei chael ar y Gymraeg, yn enwedig ar:**

- i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg**
- ii) sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?**

Roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn fodlon bod y canllawiau diwygiedig yn rhoi cyfle cyfartal i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac yn sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Yn arbennig, roedd y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn gefnogol i gyfeiriad at egwyddor y Cynnig Gweithredol, gan gynnwys Estyn.

Darparodd rhai ymatebwyr awgrymiadau ynghylch sut y gall Llywodraeth Cymru gynyddu'r defnydd o ddarpariaeth Gymraeg drwy'r canllawiau a'r broses o'u gweithredu. Roedd y sylwadau'n cynnwys:

*“Yn ddelfrydol byddai'r sawl a gyflogir fel Uwch Berson Dynodedig yn ddwyieithog, er y gallai hyn ddibynnu ar iaith y lleoliad. Dylid adnabod cymorth i Uwch Bersonau Dynodedig di-Gymraeg os bydd angen iddynt gefnogi dysgwyr Gymraeg”* (Clybiau Plant Cymru)

*“Angen tynnu sylw at y ffaith y dylai cyfarfodydd diogelu gael eu cynnal yn y ddewis iaith”*  
(NWSWIC)

*“Mae'n hollbwysig bod darpariaeth gydradd yn y ddwy iaith a dylai'r ddarpariaeth honno adlewyrchu natur ieithyddol yr ysgol a'i dalgylch”* (NEU Cymru)

## Cwestiwn 6

**A fydddech cystal ag esbonio hefyd sut y credwch y gallai'r canllawiau diwygiedig arfaethedig gael eu llunio neu eu newid er mwyn**

- i) sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**
- ii) atal unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Cynigiodd ychydig o ymatebwyr syniadau megis:

*“Ei gwneud yn ofynnol bod pob Uwch Berson Dynodedig yn gymwys ac yn rhugl wrth ddefnyddio Cymraeg lafar ac ysgrifenedig” (Di-enw)*

*“Datblygu'r Cynnig Gweithredol trwy'r Canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel fel bod ymwybyddiaeth o'r Gymraeg mewn dogfennau Saesneg. Cyfeirio'n benodol at y Gymraeg drwy'r Canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel, datblygu hyfforddiant iaith Gymraeg ar gyfer y canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel wedi'u haddasu, datblygu hyfforddiant iaith Gymraeg ar gyfer canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel wedi'u haddasu, datblygu hyfforddiant iaith Gymraeg ar gyfer ysgolion sy'n rhai cyfrwng Saesneg yn bennaf a lleoliadau nas cynhelir ar gyfer canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel wedi'u haddasu” (Early Years Wales)*

## Cwestiwn 7

**Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y gofod hwn i roi gwybod i ni amdanynt:**

Denodd yr ymgynghoriad ymatebion gan amrywiaeth o randdeiliaid ac roedd eu sylwadau'n ymwneud â'r ystod lawn o feysydd dan ymbarél diogelu'n gyffredinol.

Defnyddiodd ymatebwyr y cwestiwn hwn fel cyfle i grynhoi eu hymatebion a phwyntiau allweddol y cyfeiriwyd atynt dan gwestiynau blaenorol.

Hefyd, defnyddiodd nifer o ymatebwyr y cwestiwn hwn i hysbysu ynghylch anghywirdebau neu i amlygu problemau gyda hyperddolenni.